Dyma ddarn ysgrifenedig gan ddisgybl ym Mlwyddyn 10. Y dasg oedd chwilio am wybodaeth am blaned newydd ac ysgrifennu amdani. Mae'r disgybl wedi dod o hyd i wybodaeth, ond mae angen darllen drwy'r gwaith ysgrifenedig yn ofalus gan fod ynddo nifer o wallau iaith a bylchau.

# Oes bywyd ar blanedau eraill?

Mae gwyddonwyr yn hapus dros ben ar hyn o bryd oherwydd maent wedi darganfod planed newydd yn y gofod. ei henw yw Kepler 22-b.

Mae'r blaned yma'n troi o gwmpas seren, fel y mae'r ddaear yn troi o gwmpas y haul, ond mae hi'n nes at ei haul hi nag yw'r ddaear at ein haul ni. Felly, mae blwyddyn yn cymryd tua 290 o ddyddiau yn hytrach na 365 o ddyddiau (366 yn ystod blwyddyn naid) fel ein daear ni

Nid yw haul y blaned yma mor llachar â'n haul ni ychwaith ac felly mae gwres y blaned tua 22°C.

Er ei bod hi ddwywaith maint y ddaear, mae gwyddonwyr yn meddwl mai dyma'r blaned sydd fwyaf tebyg i'r ddaear o'r holl blanedau eraill. Mae dŵr ................. hi ac mae hyn yn golygu bod yna bosibilrwydd fod bywyd yno.

Hyd yma, nid yw gwyddonwyr yn siwr ynglyn â beth yw gwneuthuriad y blaned - creigiau, nwyon neu hyluf. Bydd rhaid gwneud mwy o ymchwil i ddarganfod hyn.

Mae'r blaned tua 600 blwyddyn oleuni o'r ddaear.

Tybed oes rhywun yn byw yno?